# Dosbarthwyr, derbynwyr Yr Amserau

**P. H. JONES yn cwblhau ymchwil**

CANOL Tachwedd 1848, yn fuan ar ôl i'r *Amserau* ddychwelyd i Lerpwl o Ynys Manaw, fe gyhoeddwyd ynddo restr o'r nifer o gop'iau a ddanfonwyd i'w ddosbarthwyr yn Lerpwl ac yng Nghymru. Nid yw'r rhestr yn gyflawn: ni chynhwyswyd ambell i ddosbarthwr pwysig megis cwmni Hughes o Wrecsam.

Ni wyddom ychwaith sut y byddai ychwanegu cyrchfan rhai cannoedd o gop'iau a ddanfonwyd yn uniongyrchol i'r derbynwyr yn newid y pictiwr, ond mae'n debyg bod y ffigurau yn rhoi syniad eithaf dibynadwy i ni o leoliad darllenwyr y papur.

Dyma'r ffigurau fesul sir (er bod gwybodaeth lluniwr y rhestr o ffiniau siroedd de Cymru braidd yn sigledig, mae ei wallau yn tueddu i wrthweithio ei gilydd!);

| | |
|---|---|
| Caernarfon | 397 |
| Morgannwg | 336 |
| Mynwy | 214 |
| Môn | 154 |
| Lerpwl | 120 |
| Meirionnydd | 132 |
| Ceredigion | 92 |
| Y Fflint | 90 |
| Dinbych | 88 |
| Caerfyrddin | 52 |
| Brycheiniog | 34 |
| Trefaldwyn | 5 |
| Penfro | 3 |
| Maesyfed | 0 |

Gwelir ar unwaith fod cryn dipyn o sail y ymffrost *Yr Amserau* ei fod yn bapur cenedlaethol: o'r 1593 o gop'iau a ddanfonwyd i ddosbarthwyr y tu allan i Lerpwl, aeth 857i bum sir gogledd Cymru a 736 i'r de. Yr oedd felly yn wahanol iawn i'w ragflaenydd *Cronicl Yr Oes*, newyddiadur a feddai ond dau ddosbarthwr yn y de ym 1839

* * * *

O ASTUDIO'R ffigurau yn fanylach, mae'n amlwg mai trigolion yr ardaloedd diwydiannol yn hytrach na thrigolion cefn gwlad a oedd yn prynu'r newyddiadur. Yn y de, roedd gwerthiant da iddo yn ardaloedd y gweithfeydd haearn yno, er enghraifft, aeth 30 o'r 34 o gop'iau a ddanfonwyd i ddosbarthwyr ym Mrycheiniog.

Gwerthwyd mwy o gop'iau ym Merthyr 134, heb sôn am 50 ychwanegol yn Nowlais nag yn y cyfan o Sir Feirionnydd. Roed galw sylweddol amdano yn ardaloedd diwydiannol gogledd Mynwy 46 copi i waith haearn y Rhymni, Tre York, 43 i'r gwaith yn Nhwyn Carno, 38 i Frynmawr, 30 i Dredegar, 18 i waith Victoria, 8 i ardal Llechryd o waith y Rhymni, a 7 i Briery Hill, Glyn Ebwy.

Yr un oedd y sefyllfa yn y gogledd; yn Sir Gaernarfon danfonwyd llawer o gop'iau i'r chwareli 75 copi i Fethesda yn ogystal ag ugain yr un i Ebeneser a Llanddeiniolen.

Mae'n syndod cymaint o fannau gwledig trwyadl Gymraeg oedd heb ddosbarthwyr yn 1848, yn rhannol oherwydd tlodi ond hefyd oherwydd nad oeddynt eto yn ddigon aeddfed i dderbyn syniadaeth y newyddiadur.

Mae gwerthiant *Yr Amserau* ym Meirionnydd yn ddiddorol dros ben o'i ystyried yng ngoleuni astudiaeth feistrolgar yr Athro Ieuan Gwynedd Jones o wleidyddiaeth y sir ganol y ganrif ddiwethaf.

Aeth bron hanner y cop'iau 60 allan o 132 i dref ddiwydiannol Ffestiniog, a'r mwyafrif o'r gweddill 52 copi i'r Bala, "Athen Cymru" a thref a ddatblygodd yn ganolfan radicalaidd yn ystod y 50au. Dim ond tri lle arall, Corwen (14 copi), Dolgellau (4) a Thrawsfynydd (2) oedd â dosbarthwyr ym 1848.

Does dim rhyfedd i un o ddarllenwyr y newyddiadur yn Nhanygrisiau geryddu trigiolion Meirionnydd oherwydd eu diffyg cefnogaeth: "Pa le y mae ymneillduwyr Maentwrog, Harlech, Dyffryn-Ardudwy, Corris a Llanegryn?" oedd ei gri.

Gwaith araf oedd cynyddu nifer y dosbarthwyr ym Meirionnydd: erbyn 1850 dim ond dau a ychwanegwyd, y naill yn Llanuwchllyn a'r llall yn Ninas Mawddwy.

* * * *

AMBELL waith gellir gosod gwybodaeth am werthiant *Yr Amserau* mewn cyd-destun ehangach oherwydd y ffasiwn a fu yn arbennig yn sgil y Llyfrau Gleision o gyhoeddi rhestri o'r llyfrau mewn rhannau, cylchgronau a newyddiaduron a dderbyniwyd gan drigolion ardaloedd neilltuol.

Dechrau 1851, yhoeddodd *Yr Amserau* ddadansoddiad o'r cyhoeddiadau a dderbyniwyd gan chwarelwyr Cae Braich y Cafn. Ymhlith pethau eraill cynhwysai'r rhestr 77 copi o'r *Traethodydd* bob chwarter, 150 y mis o'r *Cronicl* bach, 155 y mis o'r *Geiniogwerth*, 53 o'r *Drysorfa*, 51 o'r *Athraw Dirwestol*, 50 o'r *Gymraes*(!) a dim ond *un* o'r *Haul*. Derbyniwyd 79 copi bob wythnos o'r *Amserau* a 29 bob pythefnos o'i hen elyn eglwysig, *Y Cymro*.

Rhag ofn i ni ymhyfrydu'n ormodol yn y fath lengarwch dylid nodi bod tua 35 o newyddiaduron Saesneg yn cael eu derbyn bob dydd yn swyddfa'r post ym Methesda.

O droi i ardal wledig, cawn ddadansoddiad o'r hyn a dderbyniwyd gan drigolion Dwyran, Môn, yn 1850. Archebwyd 10 copi bob chwarter o'r *Traethodydd*, 40 y mis o'r *Geiniogwerth*, 20 o'r *Drysorfa* a 18 o'r *Cronicl*. Derbyniwyd 10 copi yr wythnos o'r *Amserau*, 5 o'r *Carnarvon & Denbigh Herald* a dim ond dau bob pythefnos o'r *Cymro*. Yn ôl y gohebydd roedd "amryw o'r merhed" yn derbyn y cyhoeddiadau hyn hyd yn oed *Y Traethodydd*!

Yn y de roedd mwy o fynd ar *Yr Adolygydd* yn Hirwaun (18 copi) yn 1850 na'r *Traethodydd* (13). Gwerthwyd yno 48 y mis o'r *Geiniogwerth*, 38 o'r *Cronicl* a 23 o'r *Gymraes*. Derbyniwyd 14 copi bob wythnos o'r *Amserau*, ond 135 o wythnosolion Saesneg: papurau Sul, mae'n debyg oedd llawer o'r rhain gwyddom fod J. T. Jones, er enghraifft, wrthi'n ddyfal werthu'r *News of the World* yn y cymoedd yn ystod y 1840au.

Yn y canolbarth ymffrostiai gohebydd o Lanidloes ganol 1852 fod y trigolion yn "darllen fel y deuant allan o'r wasg y *British Quarterly*, y*Bibliotheca Sacra*, yr *Eclectic (Review)*, *Y Traethodydd*, *Yr Adolygydd*, y*Nonconformist*, *Reynolds' Weekly Newspaper*, *News of the World*, *Yr Amserau*" cyfuniad rhyfedd o'r di-chwaeth (ond radicalaidd) a'r uchel-ael!

Tri pheth wrth fodd y gohebydd oedd bod cymaint o'r trigolion yn gwario eu harian ar ddarllen yn hytrach na diota, mai ychydig iawn ohonynt a dderbyniai'r *Times*, a bod *neb* yn derbyn *Y Cymro* "bawaidd a dienaid'.

* * * *

O BRYD i'w gilydd byddai'r *Amserau* y cynnwys rhestr o enwau ei ddosbarthwyr. Roedd tua hanner o'r dosbarthwyr y gellir olrhain eu galwedigaethau yn aelodau maser llawn o'r fasnach lyfrau yn argraffwyr/cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr neu rwymwyr llyfrau.

Fel y gellid disgwyl, y rhain oedd yr elfen fwyaf parhaol yn y rhwydwaith o ddosbarthwyr er, fel y gwelsom yn yr erthygl flaenorol, roedd ambell i ddafad ddigon du yn eu mysg!

Gwerthai'r dosbarthwyr eraill *Yr Amserau* naill ai fel gweithgarwch masnachol atodol neu oherwydd eu hargyhoeddiadau gwleidyddol a chrefyddol.

Nid oedd yr elw wythnosol o werthu ychydig o gop'iau (am dâl o ddimai y copi) yn fawr ac fe allai'r dosbarthwyr golli hyd yn oed hynny oherwydd anonestrwydd y derbynwyr: mae'n debyg y gallai sawl dosbarthwr ddisgrifio ei hun fel y gwnaeth un cyfrannwr at apêl 1849: "Hen ddosbarthwr o Sir Gaernarfon yr hwn a gollodd trwy ei ddosbarthu"!

Y grŵp mwyaf lluosog o ddosbarthwyr heblaw aelodau'r fasnach lyfrau oedd y siopwyr, gwŷr megis Thomas Jones, dilledydd, Llanelwy, E. Evans, fferyllydd, Tregaron, neu Ishmael Williams, groser ym Mhontypridd, a oedd hefyd yn dosbarthu'r *Traethodydd*yno. Roedd dosbarthu newyddiadur yn fanteisiol iawn i wŷr fel hyn gan ei fod yn denu cwsmeriaid i'w siopau yn rheolaidd bob wythnos.

Dosbarthwyd *Yr Amserau* hefyd gan grefftwyr megis cryddion a gofaint: cryddion, er enghraifft, a ddosbarthai'r papur yn Llanfair Pwll, yn Ebeneser, ym Mhorthmadog ac yn Ffestiniog. Ymhlith y crefftwyr eraill a fu yn ddosbarthwyr cawn asiedyddion, gwydrwr a gwneuthurwr oriaduron.

Yn ogystal â'r crefftwyr traddodiadol hyn, cawn ambell i enghraifft o weithiwr diwydiannol yn ei ddosbarthu. Yn Beaufort, Benjamin Jones, "filler" yn y gwaith haearn, a ddosbarthai'r papur. Ar ôl etholiad 1852 honnai'r *Amserau* (yn ddi-sail, mae'n debyg) fod Evan Hughes, Llanddeiniolen, wedi cael ei droi allan o chwarel Dinorwig oherwydd iddo ddosbarthu'r papur yno.

Gweithredai ambell i ysgolfeistr y Gymdeithas Frutanaidd (megis David Evans, Ffestiniog) fel dosbarthwr, ac ambell i weinidog radicalaidd Annibynwyr gan amlaf, megis Tanymarian neu David Morgan, Llanfyllin, ond hefyd rhai Bedyddwyr megis Nefydd neu Evan Jones "Gwrwst".

Ond ar y cyfan, gan fod *Yr Amserau* yn newyddiadur ni fedrai ddibynnu ar y gyfundrefn o ddosbarthu trwy'r capeli y soniodd y Dr Siân Rhiannon amdani yn ei darlith ddiddorol.

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon
(0286) 4486
Argraffwyr a Chyhoeddwyr